# Gŵyl y Glaniad, Llanw Llŷn, Gorffennaf 2022




**Bienvenidos yw ein cân**




**Arwydd ffordd ym Mhorth Madryn**

**Ddydd** Sadwrn, 23ain Gorffennaf bydd Cymdeithas Cymru Ariannin yn dathlu Gŵyl y Glaniad yng Nghanolfan Nefyn am 1yp yng nghwmni Tito Lewis, Blaenycoed, Sir Gâr; Rhisiart Arwel, Caerdydd a Band Arall o ardal Porthmadog. Pris tocynnau am fwffe dau gwrs fydd £16 i oedolion a hanner pris i blant ysgol. Dethlir Gŵyl y Glaniad ddiwedd Gorffennaf er mwyn dathlu glaniad yr ymfudwyr cyntaf i gyrraedd Patagonia ar 28ain Gorffennaf, 1865.

Drannoeth, ar y bore Sul, bydd cyfle i ymweld â safle Castell Madryn, Dinas sydd bellach yn faes carafanau moethus. Wedyn bydd rhai'n mynd ymlaen i Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog i weld byrddau gwybodaeth am Syr Love Jones-Parry, Castell Madryn ac i gael cinio.

Mae tref Nefyn wedi'i gefeillio gyda Phorth Madryn, yr Ariannin ers 1998. Mae yna stryd wrth ymyl yr orsaf fysiau ym Mhorth Madryn wedi ei henwi yn 'Cuidad de Nefyn' (tref Nefyn) ac mae carreg o Gastell Madryn a gyflwynwyd yn 1998 (yn ystod y gefeillio) bellach i'w gweld mewn wal yn adeilad Neuadd y Ddinas ynghanol Porth Madryn. Mae yna garreg o Gastell Madryn hefyd wedi ei gosod yn y wal yn y maes parcio yn Nefyn lle'r oedd Neuadd Madryn yn arfer bod (y tu ôl i'r Stryd Fawr) ers i'r lle gael ei ailwampio.

Ym mis Chwefror 2021, yn ystod y cyfnod clo, bu i Gyngor Tref Nefyn wneud cysylltiad gydag aelodau o'r Gymdeithas Gymreig ym Mhorth Madryn. Meddai Catrin Roberts, Cadeirydd Cyngor Tref Nefyn: 'Cynigiwyd i blant ysgolion cynradd ardal Cyngor Tref Nefyn dynnu lluniau o'u hoff adeiladau. Cafwyd ymateb gwych gan yr ysgolion lleol. Wedyn, cafodd y lluniau eu cynnwys mewn cyflwyniad ar gyfer aelodau o Gymdeithas Gymreig Porth Madryn drwy sŵm. Roedd yn gyfle gwych i ailsefydlu'r berthynas gyda thref Porth Madryn.'


Yna, ym Mhorth Madryn yn 2021, fe gynhaliwyd cystadleuaeth creu cestyll tywod ar y traeth gan gysylltu hyn gyda Chastell Madryn yng Nghymru. Eleni, bydd Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn yn cynnal cystadleuaeth creu cestyll tywod ar draeth Nefyn fore Sadwrn 23ain Gorffennaf rhwng 11 a 12 o'r gloch. Mi fydd angen dod â phwcedi a rhawiau efo chi a bydd cyfle i chi brynu baneri bach Cymru a'r Ariannin er mwyn addurno'r castell (dwy faner fach am £1). Mi fydd yna wobr i'r enillydd, a thystysgrifau i bawb. Y tâl cystadlu fydd £1 ac mi fydd elw'r digwyddiad yn mynd at goffrau Amgueddfa Forwrol Llŷn. Dywedodd Jina Gwyrfai o'r Amgueddfa, 'Rydym yn falch iawn o'r cyfle i gynnal y gystadleuaeth hon eleni, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng Nefyn a Phorth Madryn. Gobeithio y byddwn yn gallu anfon lluniau o gestyll gwych Nefyn draw at ein cyfeillion yn yr Ariannin!'

Cysylltwch gyda Liliana Williams, Isfryn, Aberdaron rhag ofn y bydd yna lefydd ar ôl: lilianawilliams@yahoo.com neu 07896023039, (dim hwyrach na Gorffennaf 16).


**Rhys Llywelyn**





**Cystadleuaeth creu cestyll ym Mhorth Madryn yn 2021**




**Y garreg ym maes parcio safle Neuadd Madryn yn Nefyn**